monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk, Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Gwefan/Web: www.monmouthshire.gov.uk
Ein Cyf/Our ref:
Eich Cyf/Your ref:

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i adleoli a chynyddu capasiti Ysgol Gymraeg Y Fenni**

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ddyletswydd statudol i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas i blant yn y Sir, ac wrth wneud hynny sicrhau bod adnoddau a chyfleusterau'n cael eu defnyddio'n effeithlon er mwyn darparu'r cyfleoedd addysg y mae ein plant yn eu haeddu.

Mae Sir Fynwy yn cefnogi ac yn ymrwymedig i strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, sy'n cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae sefydlu trydedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Fynwy yn elfen ganolog o'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sy'n canolbwyntio ar gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.

Fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ymgynghori ag aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid priodol wrth ystyried unrhyw gynigion sylweddol ar gyfer trefniadaeth ysgolion.

Ar 17eg Ionawr 2024, cytunodd Cabinet y Cyngor i ddechrau'r prosesau ymgynghori statudol gofynnol ar y cynnig i adleoli Ysgol Gymraeg Y Fenni i'r safle a arferai gael ei feddiannu gan Ysgol Gynradd Deri View, ac wrth wneud hynny, caniatáu i gapasiti'r ysgol gynyddu i 420 o leoedd ynghyd â 60 lle Meithrin.

Bydd ymgynghoriad statudol ar y cynnig yn dechrau ar **ddydd Llun 29ain Ionawr 2024** a bydd yn parhau ar agor am gyfnod o 42 diwrnod, gan ddod i ben **11eg Mawrth 2024.**

Mae'r Cyngor wedi datblygu dogfen ymgynghori sy'n cynnig mwy o fanylion am y cynigion hyn, ac mae ar gael i chi ei chyrchu trwy wefan Cyngor Sir Fynwy, ac yn benodol trwy'r ddolen ganlynol Ad-drefnu Ysgolion - Sir Fynwy

Gellir darparu copi caled o'r ddogfen ymgynghori ar gais drwy e-bostio strategicreview@monmouthshire.gov.uk.

Fe'ch anogir i gymryd peth amser i astudio'r ddogfen ymgynghori cyn cyflwyno eich ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn.  Os oes gennych unrhyw sylwadau, barn a/neu bryderon mewn perthynas â'r cynnig, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni trwy gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein, sydd hefyd ar gael drwy Ad-drefnu Ysgolion - Sir Fynwy


Bydd y Cyngor yn cynnal sesiynau ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr, staff a phartïon eraill â diddordeb yn ystod y cyfnod ymgynghori 42 diwrnod, gan roi cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am y cynigion.

Bydd yr holl safbwyntiau a fynegir drwy gydol y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y camau nesaf, felly mae'n hanfodol eich bod yn cymryd peth amser i rannu eich barn. Gwnewch yn siŵr bod eich ymateb yn egluro a ydych yn cefnogi'r cynigion ai peidio, ac yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau **11$^{eg}$ Mawrth 2024**. Yn anffodus, ni all y Cyngor gynnwys unrhyw ymatebion a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Ar ôl i'r broses ymgynghori statudol ddod i ben, bydd Cabinet y Cyngor yn derbyn adroddiad ymgynghori yn dadansoddi'r adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yr adroddiad hwn fydd yn llywio unrhyw benderfyniad a wneir ar gamau nesaf y broses statudol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, cyhoeddir hysbysiadau statudol sy'n rhoi cyfnod rhybudd o 28 diwrnod i wrthwynebiadau ffurfiol gael eu gwneud.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau. Cofiwch fod yn rhaid i'r Cyngor dderbyn yr holl ymatebion heb fod yn hwyrach na'r **11$^{eg}$ Mawrth 2024**.

Yr eiddoch yn gywir



Will McLean

Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

The Council welcomes correspondence in English or Welsh or both, and will respond to you